**CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED**
Cyfarfod a gynhaliwyd am 7.30 y.h. ar Nos Lun 20.10.2025
Yn Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed
**Yn Bresennol:** Cllr.Amy Evans (Cadair.), Cyng. Elfed Davies, Cyng. Eifion Jones, Cyng. Bryan Davies a'r Cyng. Robin Bowen.
**Clerc:** Enid Davies
**Cyfieithydd:** Hefin Jones
**Ymddiheuriadau:** Cyng. Aled Jones, Cyng. Delme Phillips a'r Cyng. Julian Evans.

**51.Datgelu Buddianau Personol:**
Dim

## 52. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 22.09.2025

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22.09,2025: Roedd y Cyng. BD ac ED yn anghytuno â geiriad y gwelliant yn m.42 o fersiwn Cymraeg y cofnodion - Yna cafwyd trafodaeth ar ystyr geiriad y cofnodion a hefyd y cywiriad a wnaed i gofnodion mis Gorffennaf - cytunwyd y dylid diwygio geiriad m.35 o “gefnogi” i “gydnabod”. Cytunodd y Cyngor bod m.35 ac m.42 yn cael eu diwygio yn unol â hynny ac unwaith y byddai’r cywiriadau a nodwyd wedi’u gwneud, cynigiwyd gan y Cyng.B.D. fod y cofnodion yn gofnod cywir o gyfarfod 22.09.25, ac eiliwyd gan y Cyng. R.B.

## 53.Materion i’w hadrodd

a. Materion Priffyrdd: gweler o dan "Materion Priffyrdd".
b. Cyfleusterau Cyhoeddus -.gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.

## 54.Gohebiaeth.

*Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.*

- Un Llais Cymru-Y Ddyletswydd Adran6-Gweithdy bioamrywiaeth - nodwyd.
- Dyddiadau Gweithdai ar-lein Adran 6 - nodwyd.
- Cadw Cymru’n Daclus-Gweminar Ardaloedd Gwyrdd a Bioamrywiaeth23/10/25- Gweminar Ansawdd Amgylcheddol Lleol 5/11/25. Nodwyd.
- Rhannwch eich barn ar beth sydd yn llunio eich iechyd a lles?-poster GiG Cymru - nodwyd.
-

## 55.Cynllunio

**PL/010013**- Datblygiad Preswyl gyda thurlinio, mynediad, draenio a gwaith cysylltiedig-Tir oddi ar tir ger Surgeon Street, Cynwyl Elfed, Caerfyrddin.Dyddiad gorffen:05/11/2025.
Trefnu dyddiad ar gyfer cyfarfod cyhoeddus- gweithredu- y clerc i archebu’r Neuadd ar gyfer naill ai 10 neu 11 Tachwedd.
Ynn dilyn y cyfarfod cyhoeddus trefnu dyddiad I drafod y cais yn fanwl a llunio ymateb y Cyngor.
Amgylcheddol
Dywedodd y Cyng. R.B. wrth y cyfarfod am bryderon ynghylch carthion sy’n cael eu rhyddhau i’r afon, sy’n diwydd yn rheolaidd.
Gofynnodd y Cyng. E.J. am eglurhad - Yn ei adroddiad, crynodeb o ymateb DCWW gan Amity, mae capasiti ar Gyfer 13 o gartrefi newydd, ond a yw’r 13 anheddiad yn cynnwys anheddau sydd eisioes yn y broses o gael eu hadeiladu yn y pentref a’r rhai y mae cynllunio amlinellol eisoes wedi’i gytuno ar eu cyfer. Mae’r clerc wedi ysgrifennu at Dŵr Cymru yn yr un modd ond heb derbyn ymateb. Gweithred - clerc i ysgrrifennu eto gan gynnwys y pwyntiau a grybwyllwyd a dilyn hwn lan drwy ffonio ymhen wythnos.

## 56.Taliadau a Chyllid

**(a)**Taliadau a Chyllid

- ME Davies Clerc Cyflog 09/25 £309.90
- H.M.R.C. £232.60
- Maria Thomas Magic Mops Medi 2025 £230.00

- EDF DU Trydan -01.09.25-30.09.25 £ 41.31
- Clay Shaw Butler(Anfoneb 6 mis hyd at 30.09.25). £300.00 gan gynnwys T.A.W.
  *Cymaeradwyodd y Cyngor y taliadau uchod.*

- **ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU**

Adolygwyd y cyfrifon hyd at 30 Medi 2025 gan y Cyng. Amy Amy Evans a nodwyd eu bod yn ymddangos yn gywir.

## 57.Materion Priffyrdd:

***Materion Priffyrdd adroddwyd ar 22.09.25 a 20.10.25***

Cynigiodd y Cynghorydd ED fod y clerc yn ysgrifennu i ddiolch i'r Cyngor Sir am yr holl waith a wnaed hyd yma ledled ardal Cynwyl Elfed ac yn enwedig ar yr A484 rhwng Cynwyl Elfed a Hermon lle mae arwyddion rhybuddio bod ffordd yn culhau clir bellach yn eu lle.

**a)**Twll yn y ffordd tu blaen i Villa, Blaenycoed.

b) Penlanchwilor - Gwter wedi blocio SA33 6UD

**c)** Rhiw Clos y Graig - Cloddiau wedi gordyfu gyda changhennau'n cyrraedd dros Rhan o'r ffordd. Peryg. Nid yw'r Cyngor Cymuned yn gwybod pwy sy'n berchen ar yr eiddo.

d) A484- SA33 6UJ - Coeden wedi cwympo ger Esgair penwythnos diwethaf. Mae'r goeden wedi'i thorri ond mae coed yn dal i fodoli sy'n beryglus ac mae angen eu clirio. Mae'r ffens wedi torri.

e) C2023 o Cynwyl i Penrhiwcrynfryn - mae tua throedfedd o'r ffordd wedi erydu i ffwrdd..

f) Penrhicrynfryn Junction - ffordd fach - gwyneb y ffordd wedi erydu i ffwrdd.

f) Cyffordd Esgair- Ceuffos wedi dymchwel eto SA33 6UL.

g) Esgair - mae angen glanhau'r lle aros (layby).

h) Mae angen terfyn cyflymder is drwy Esgair.

j)The road from Esgair to Calcit - The side of the road has eroded leaving a sharp edge and a deep drop on the left side of the road.

j) Esgair - Penfoel -Mae conau wedi'u gosod mewn mannau lle mae'r ffordd wedi rhedeg i mewn i'r gwter - mae angen atgyweiriadau.

k) C1294 -Y ffordd I Cwm Hagar -mae yna rhaniad mawr yng nghanol y ffordd.

L) Graeanu - clerc I gysylltu a'r Cyngor Sir i ofyn i'r ffyrdd C gael eu graeanu, enwedig y ffordd rhwngPenfforddnewydd a Tŷ-Coch, sy'n ffordd brysur.. Hefyd i wneud yn siwr bod y blychau graeanu yn yr ardal wedi eu llenwi cyn y tywydd rhewllyd.

m). A484 -SA33 6AR - tipio malurion a deunydd ar dir gerllaw'r briffordd - mae'r Cyngor wedi cael gwybod bod y mater yn cael ei drin gan y Cyngor Sir.

n) SA33 6UN - Rhiw Panne - Mae'r ffordd mewn cyflwr Gwael difrifol a'r dail sydd wedi crynhoi yn achosi'r ffordd droi'n llithrig. - mae angen glanhau'r ffordd.

o)B4299-Cyffordd Maudsland I Bryn Moriah- diffyg llygaid cathod.

p) C1313 -Adroddwyd bod malurion yn crynhoi ar y palmant rhwng
Cynwyl Elfed a'r Ficerdy.

q) C2043 - Codwyd pryderon ynghylch darn o'r ffordd lle daeth lori oddi ar y ffordd yn ddiweddar.

## 58. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau—

- **Cae Chwarae Bro Elfed:**
- Dywedodd y Cyng. Amy Evans wrth y cyfarfod fod y Cyfansoddiad gwreiddiol wedi'i ddarganfod.
- Mae llythyr wedi'i anfon at y Cyngor Sir ynghylch y ffens o amgylch y parc ac mae aelodau'r pwyllgor wedi siarad â pherchennog y tir ynghylch y ffens sy'n rhedeg ar hyd ochr yr afon.
-

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:**
- Roedd y Cyng. ED ac AE wei galw mewn yn y cyfleusterau cyhoeddus dros y pedair wythnos diwethaf a'u canfod yn lân ac yn daclus.

**59.Unrhyw Fater Arall.**

- *Hyfforddiant -*

**60. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.**

Cyfarfod nesaf ar: Nos Lun, **17 Tachwedd 2025** am**: 7:30** yr hwyr**.**
Mae Cyfarfod Cyhoeddus i drefnu ar 10 neu 11 Tachwedd - clerc i gysylltu a'r gofalwr i archebu'r Neuadd.
Bydd angen Cyfarfod Cyngor arall cyn dyddiad gorffen yr ymgynghoriad er mwyn I'r Cyngor Gymuned trafod ei hymateb.

Daeth y cyfarfod i ben am 21.30 awr.

………………………………………………………………
Cadeirydd.
………………………………………………………………
Dyddiad.